GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

**Cyngor wrth gael eich Rhyddhau o'r Ysbyty**

# Tynnu briwiau ar y croen a lympiau arwynebol

**Tynnu briwiau ar y croen a lympiau arwynebol o gwmpas y Pen a'r Gwddf:**
Mae hyn yn golygu llawdriniaeth i dorri'r briw sydd ar y croen, yn aml ar rannau o'r wyneb a'r gwddf sy'n gosmetig sensitif.
Gall y rhesymau dros wneud y lawdriniaeth hon gynnwys

- Diagnosio a thrin canser
- Adolygu craith
- Er mwyn gwella ymddangosiad cosmetig briw/lwmp annymunol sydd efallai'n achosi pryder, sy'n anghyfforddus (wrth eillio, gwisgo) neu sy'n achosi heintiau.

Mae sawl ffordd o gael gwared ar friwiau ar y croen.

- Tynnu'r briw'n llwyr a chau'r clwyf yn uniongyrchol gyda phwythau
- Tynnu briw bach a gadael i'r briw wella'n naturiol heb bwythau
- Tynnu'r briw a symud ychydig o groen cyfagos er mwyn llenwi'r twll (adlunio drwy ddefnyddio fflap)
- Tynnu'r briw a thynnu rhywfaint o groen sydd wedi'i fenthyg o ran arall o'r corff a'i osod dros y clwyf (graft croen).

Os byddwch yn cael y lawdriniaeth fel claf dydd, byddwch yn cael cyngor ar sut i dynnu'r gorchudd eich hun dros y dyddiau nesaf.
Byddwch yn cael gwybod os oes gennych bwythau hydawdd neu os oes gennych bwythau nad ydynt yn hydawdd sydd angen eu tynnu. Gall nyrs practis eich Meddyg Teulu dynnu pwythau sydd angen eu tynnu (6-10 diwrnod ar ôl llawdriniaeth fel arfer). Bydd angen i chi wneud apwyntiad gyda nyrs eich practis er mwyn trefnu hyn.
Mae'n bwysig cadw'r briw yn sych am 10 diwrnod ar ôl llawdriniaeth. Yn benodol, ceisiwch osgoi golchi gwallt nes bod y pwythau wedi'u tynnu mewn clwyfau o amgylch y glust, wyneb, gwddf neu groen y pen. Efallai y byddwch am roi cynnig ar siampŵ sych os yw eich gwallt yn teimlo'n oeliog.
Pe bai eich clwyf yn mynd yn llidus neu'n dechrau agor ar ôl llawdriniaeth, bydd angen i chi gael eich gweld gan naill ai'r ystafell driniaeth ENT neu'ch Meddyg Teulu. Mae manylion cyswllt yr ystafell driniaeth ENT ar y daflen hon.

**Amser a gymerir i wella:**
Mae’r poen ac anesmwythdra’n tueddu i fod yn ysgafn ac mae fel arfer yn gwella o fewn ychydig ddyddiau. Byddwch yn cael cyngor gan eich nyrs ar leddfu poen cyn i chi gael eich rhyddhau. Mae'r rhan fwyaf o gleifion angen 2-5 diwrnod i ffwrdd o'r gwaith/ysgol er mwyn gwella. Gall y broses wella fod yn hirach yn achos ail-greu fflap neu grafftiau croen. Ni argymhellir codi unrhyw beth trwm/straenio/ gwneud ymarfer corff anodd yn ystod y cyfnod hwn. Os ydych chi'n gweithio mewn amgylchedd gwlyb neu llychlyd yna byddai'n rhaid gorchuddio’r clwyf bob amser. Efallai y bydd angen i chi fynd â gorchudd ychwanegol adref gyda chi, yn ddibynnol ar y lawdriniaeth.

**Camau Dilynol:**
Byddwch yn cael eich cynghori gan eich llawfeddyg a oes angen apwyntiad dilynol arnoch ai peidio. Yn aml, bydd eich llawfeddyg yn ysgrifennu atoch gydag chanlyniadau unrhyw brofion yn ymwneud â'r briwiau/lwmp sy'n cael ei dynnu. Os na fyddwch yn derbyn eich apwyntiad dilynol disgwyliedig, ffoniwch y swyddfa trefnu apwyntiadau cleifion allanol ar 01495 765055.

**<u>GWYBODAETH AR BETH I’W WNEUD MEWN ARGYFWNG AR GYFER CLEIFION SYDD WEDI’U RHYDDHAU O’R YSBYTY</u>**

**09:00 tan 17:00 o ddydd Llun i ddydd Gwener (ac eithrio gwyliau banc):**
Cysylltwch â'r Uned Llawdriniaethau Dydd ar 01633 234199 / 01633 234196 neu cysylltwch â'r ystafell driniaeth ENT ar 01633 234018

**Wedi 17:00/yn ystod y nos (oedolion)**: C0 01633 493926.

**Wedi 17:00/dros nos (plant):** C1 01633 493609.

**<u>Os bydd argyfwng, ewch i'ch adran Damweiniau ac Achosion Brys agosaf</u>**

**“Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg /**
**This document is available in English”**